



Bwletin Llythrennedd a Rhifedd


Seithfed Rhifyn
Rhagfyr 2015

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau diweddaraf ym maes llythrennedd a rhifedd, ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol.
and resources across all key stages

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GwE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hydwrwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.

Adnoddau-Beth sydd ar gael ar y lein?

Llythrennedd



Mae'r National Literacy Trust wedi uno hefo'r BBC er mwyn lawnsio ymgyrch darllen Saesneg newydd 'Get Reading.'

Mae'r National Literacy Trust yn hynod falch o uno mewn partneriaeth hefo'r BBC er mwyn lawnsio ymgyrch darllen Saesneg newydd ar gyfer 2016. Bydd 'Get Reading' yn ceisio ysgogi y genedl i siarad am a mwynhau llyfrau. Bydd nifer o weithgareddau cyfrwng Saesneg ar gael ar draws gwefanau'r BBC.

http://www.literacytrust.org.uk/news/6944_we_partner_with_the_bbc_for_get_reading_campaign

Hwb

Hedd Wyn

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys deunyddiau gwreiddiol ac ymarferion ar gyfer CA2 a CA3 ar stori Hedd Wyn a'r Gadair Ddu.

<http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/e8c6e38c-3510-4a82-9db5-ee567881095c/cy>

Rhifedd



<http://learning.gov.wales/resources/learningpacks/reasoning-in-the-classroom/?skip=1&lang=cy>

Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth

Mae'r deunyddiau Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth yn cynnig nifer o wahanol weithgareddau i'r athrawon, gan ddefnyddio amrediad eang o ddulliau cyflwyno o bob rhan o'r Fframwaith.

Cyflwynir y deunyddiau ar gyfer pob grŵp blwyddyn: ond mater bach yw eu haddasu i'w defnyddio gyda grwpiau blynyddoedd eraill.

Arfer Dda



Gall arsylwi effeithiol yn yr ystafell ddosbarth wella addysgu a dysgu Estyn

Mae arolwg Estyn wedi nodi sut mae ysgolion cynradd ac uwchradd llwyddiannus a rhai sy'n gwella yn defnyddio arsylwi yn yr ystafell ddosbarth i wella cyflawniad disgyblion. Mewn ysgolion lle mae arsylwi yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol, mae arweinwyr wedi meithrin diwylliant cadarnhaol o wella trwy hunanarfarnu a dysgu proffesiynol. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn awyddus i rannu arfer ac maent yn ystyried arsylwi yn yr ystafell ddosbarth yn hawl.

<http://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/gall-arsylwi-effeithiol-yn-yr-ystafell-ddosbarth-wella-addysgu-dysgu>



Ymroddiad + arloesedd ysgol gyfan = medrau rhifedd gwell

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin, wedi ymgorffori rhifedd yn y cwricwlwm ar draws pob pwnc. Dan arweiniad yr adran fathemateg, bu uwch reolwyr yn dilyn disgyblion penodol am ddiwrnod, gan edrych ar ba mor dda y gellid defnyddio'r medrau a ddysgwyd mewn gwarsi mathemateg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Lluniodd yr ysgol gynllun gweithredu i ddatblygu'r cysyniad hwn ymhellach.

<http://www.estyn.llyw.cymru/best-practice/ymroddiad-arloesedd-ysgol-gyfan-medrau-rhifedd-gwell>



Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2016

Darganfyddwch pryd y cynhelir y profion yn 2016.

Cynhelir profion statudol 2016 rhwng:

27 Ebrill a 10 Mai ar gyfer ysgolion uwchradd

3 Mai a 10 Mai ar gyfer ysgolion cynradd

Y rheswm pam y rhoddir wythnos ychwanegol i ysgolion uwchradd yw rhoi cyfle iddynt osgoi cynnal profion yn ystod cyfnod prysuraf yr amserlen arholiadau.

<http://learning.gov.wales/news/sitenews/national-reading-and-numeracy-tests-2016/?skip=1&lang=cy>

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - llawlyfr gweinyddu profion



Mae'n cynnwys crynodeb o bob un o lawlyfrau'r profion a chanllawiau ar y trefniadau mynediad a datgymhwysio.

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-administration-handbook/?lang=cy>

Hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd CA3 GwE

Hyfforddiant Llythrennedd CA3 ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Bydd mwy o wybodaeth ynglyn a hwn yn ymddangos yn Bwletin GwE yn y flwyddyn newydd.

Dyddiad: Dydd Mercher 3ydd o Chwefror 2016

Amser: 9.15-3.0

Lleoliad: Glasdir, Llanrwst

Hyfforddiant mathemateg CA3. Bydd Mwy o wybodaeth ynglyn a rhain yn Bwletin GwE yn y flwyddyn newydd.

Dyddiad: Dydd Llun Ionawr 25ain (Cyfrwng Saesneg)

Amser: 9.15 - 3.00

Lleoliad: Glasdir

Dyddiad: Dydd Iau, 4ydd o Chwefror

Amser: 9.15-3.00

Lleoliad - i'w gadarnhau



GwE(@GwEGogleddCymru)